

5.4 CYMRU (15G hyd at nawr)

Ni roddodd deddfau cosbi y 15G, yn dilyn gwrthryfel Owain Glyndŵr, ddiwedd ar gasineb a diflastod y Cymry brodorol o gael eu rheoli gan Lloegr, ond hytrach i'r gwrthwyneb. Yn wir, ymddangosai fel petai proffwydoliaethau gwrth-seisnig y beirdd – oedd yn rhagweld buddugoliaeth y Cymry yn erbyn eu gelynion oesol y Saeson – wedi'u gwireddu pan oresgynnodd Harri Tudur (disgynnydd o deulu blaenllaw y Tuduriaid yng Ngogledd Cymru) i goron Lloegr ym Mosworth yn 1485 (er nad oedd ei gangen ef o'r teulu bellach yn siarad Cymraeg). O dan ymdrech i ganoli oedd wedi'i anelu at rannau eraill o deyrnas Harri VIII ym Mhrydain, cymhathodd Deddfau Uno 1536 Cymru â Lloegr yn wleidyddol ac ar ôl hynny bu'r Cymry yn wleidyddol dawel hyd yr 20G.

Yn wir, o ran bron yr holl Gymry ar y pryd, croesawyd ymgorffori Cymru â Lloegr fel arwydd bod y Cymry i gael statws dinesig cydradd â'r Saeson, a hynny mewn gwrthgyferbyniad llwyr i gyfreithiau cosbi ethnigrwydd y 15G. Ymhellach, roedd rhannu llawer o Gymru yn arglwyddiaethau oedd bron â bod yn annibynnol wedi annog camymddwyn, ysbeilio a lladrata. Roedd cydraddoldeb wrth gwrs yn amodol ar ddefnyddio'r Saesneg, ond byddai'r diraddio hwn ar y Gymraeg yn y byd cyfreithiol yn pwyso llai bryd hynny nag a fyddai (mewn Cymru diweddarach lle roedd y Gymraeg dan fygythiad cael ei dileu). Serch hynny, erbyn diwedd y 16G roedd rhai deallusion yn dechrau poeni am y ffordd yr oedd rhai Cymry yn troi eu cefnau ar y Gymraeg ac yn troi at y Saesneg (sail y cymeriad Dic Siôn Dafydd diweddarach) ac esgorwyd ar ymdrech ddeallusol i warchod yr iaith – os yn ddiwylliannol yn unig – drwy lunio geiriaduron, gramadegau a llyfrau. Daeth ysgolheigion Cymraeg y Dadeni i'r fei ar adeg pan oedd y Diwygiad Protestannaidd yn ennill tir yn Lloegr. Er gwaethaf peth arafwch cyffredinol ymysg y Cymry wrth fabwysiadu arferion newydd, ac arwyddion y câr grefydd Brotestannaidd ei hystyried ar y dechau fel “y ffydd Seisnig”, ni chafwyd erioed wrthryfeloedd dros arferion Catholigaidd fel y cafwyd yng ngogledd Lloegr, Cernyw ac Iwerddon yn ddiweddarach. Aeth grŵp cymwys o ddiwygwyr Protestannaidd argyhoeddedig o blith y gwŷr llên, yn bennaf William Salesbury, ati i hyrwyddo'r achos Protestannaidd yn y gymdeithas Gymraeg. Yn 1563 pasiodd Elizabeth I ddeddf Seneddol i gyfieithu'r Beibl (Protestannaidd) i'r Gymraeg; dechreuwyd hyn gan Salesbury a ddaeth â'r Testament Newydd allan yn 1567, a'i gwblhau ar ffurf ddiwygiedig yn 1588 gan William Morgan (a wnaed yn esgob wedi hynny). Roedd gan gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg gyda chefnogaeth swyddogol ganlyniadau pellgyrhaeddol i ddyfodol y Gymraeg. Caiff y cyfieithiad glod gan bob sylwebydd o fod yn waith cyfieithu rhagorol, ac yn anad dim fe gynigiodd iaith lenyddol gyffredin a wnaeth lawer i hyder yn yr iaith (ac nid yw'n ormodiaith cysylltu cryfder cymharol y Gymraeg ymysg yr ieithoedd Celtaidd cyfoes eraill â'r ffaith fod yr iaith ysgrifenedig

wedi'i phoblogeiddio gan y weithred hon o oddefgarwch yn ystod teyrnasiad Elizabeth I). Cyhoeddodd rhai gwrth-ddiwygwyr Catholig Cymraeg megis Morys Clynnog a Gruffudd Robert hefyd lyfrau gramadeg a llyfrau defosiynol yn Gymraeg yn y 1560au yn yr Eidal, ond nid oedd amgylchiadau gwleidyddol o blaid eu hamcanion.

Roedd John Penry, a ddiennyddwyd gan Elizabeth yn 1593, wedi'i gymell i droi'n anghydfurfiwr o ganlyniad i brinder y Testamentau Newydd Cymraeg a argraffwyd yn 1567, ond roedd ef yn byw yng nghanolbarth Lloegr ac felly prin ei fod ef yn gynrychioladol o'r Cymry yn ei gyfnod. Hyd at y 17G cydymffurfiai'r Cymry en masse i'r Eglwys Anglicanaidd, ond Rhyfeloedd Cartref Lloegr 1642-49 ac yn enwedig y llywodraethu wedi hynny o dan y Piwritan Oliver Cromwell 1649-60 a ddaeth â'r Gymraeg i gyswllt cyson â'r traddodiad ymneilltuol Protestannaidd. Hyd yn oed cyn buddugoliaeth Cromwell a'r Seneddwyr, roedd pregethwyr Cymraeg anghydfurfiol megis Walter Cradoc, Vavasor Powell a Morgan Llwyd wedi dechrau gweithredu yng Nghymru (oedd gan mwyaf yn gydymdeimladol â'r brenin), gan ddechrau proses o dröedigaethau oedd â chanlyniadau pellgyrhaeddol. Yn y 1650au cafodd yr anghydfurfwyr gefnogaeth y wlad yn sgil penodi clerigwyr a phregethwyr crwydrol (dyma'r cyfnod y daeth yr hen anghydfurfwyr i'r fei am y tro cyntaf yng Nghymru – yr Annibynwyr, Bedyddwyr, Presbyteriaid, Crynwyr). Ymddengys fod ailorseddu brenin, sef Siarl II yn 1660, wedi cael ei groesawu gan y mwyafrif o boblogaeth Cymru. Tro'r anghydfurfwyr nawr oedd wynebu erlyniaeth yn eu herbyn, os byddent yn cadw wrth eu daliadau yna byddant yn colli'u swyddi yn yr Eglwys, ac er y goddefwyd cynullïadau Anghydfurfiol ar adegau, cawsant eu herlyn a gwahaniaethu yn eu herbyn (diflannodd y rhai a ddioddefodd waethaf, sef y Crynwyr, o Gymru gan ymfudo mewn cryn niferoedd i drefedigaethau Prydain yn America, gan hyd yn oed sefydlu trefedigaeth Gymraeg am gyfnod byr ym Mhennsylvania yn y 1680au ac yn 1700 roeddynt yn draean o boblogaeth Pennsylvania o 20,000). Yn 1676 cyfrifir fod poblogaeth Cymru ond â 5% ohonynt yn Anghydfurfwyr, ond cefnogwyd hwy gan nifer cynyddol o glerigwyr Anglicanaidd oedd â llawer yn gyffredin â phwyslais efengylaidd ac ymagwedd piwritanaidd yr Anghydfurfwyr. Yn 1674 sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Gymreig yn Llundain, a'i nod yn wreiddiol oedd lledaenu'r efengyl a'r Saesneg, ond llwyddodd Stephen Hughes i ddwyn perswâd ar yr Ymddiriedolaeth i weithio yn Gymraeg a rhoddodd hyn fodd i ffrwydrad o gyhoeddiadau Cymraeg rhwng 1670-1700 (tua 139 o lyfrau). Yn 1676 roedd y Catholigion yn ddim ond 1% o boblogaeth Cymru, ac wedi'u lleoli'n bennaf yn Sir Fynwy lle cawsant nodedd gan deulu dylanwadol Rhaglan. Roedd yna ganolfan Jeswitiaid yn y Cwm, Llanrothal yn y rhan Gymraeg o Swydd Henffordd rhwng 1622-81 a phan gaewyd y ganolfan dienyddwyd pedwar o'i offeiriaid. Gwanhau fu hanes Catholigiaeth ac nid adferodd byth yma yn ei chadarnle olaf yng Nghymru ar ôl diwedd y llinach y Stiwartiaid gan wneud dychweliad swyddogol Catholigiaeth yn annhebygol.

Cafwyd ymdrechion i gael goddefiad i Anghydfurfwyr a Chatholigion o dan Siarl II ac Iago II, ond gwrthwynebwyd cydymdeimladau'r brenhinoedd hyn gan Senedd Lloegr, ac yn wir y Senedd oedd achos cwymp Iago I yn 'Chwyldro Gogoneddus' 1688. O dan y Protestant William II, roedd Deddf Goddefiad 1688 yn caniatáu i lawer o bregethwyr Anghydfurfiol gofrestru eu man addoli, cyn belled â'u bod yn tyngu llw o'u teyrngarwch. O'r 1690au y daw'r capeli (tai-cwrdd) Anghydfurfiol. Er gwaethaf y gwelliant hwn a waredodd erlyn llwyr, ni châi Anghydfurfwyr fod yn berchen ar swydd wladol o unrhyw fath a bu iddynt barhau yn ddinasyddion dan anfantais ymhell i'r 19G.

Cyhoeddwr pwysicaf llenyddiaeth Anglicanaidd ddefosiynol yn y 18G oedd y Gymdeithas Er Lledaenu Gwybodaeth Gristnogol (SPCK), a sefydlwyd yn 1698. Yng Nghymru, daeth Griffith Jones, rheithor Llanddowror, Sir Gaerfyrddin, yn aelod brwdfrydig ac yn 1731 dechreuodd ar ei system o ysgolion cylchynol, a thrwyddynt amcangyfrifid fod cynifer â 200,000 o bobl wedi dysgu darllen Cymraeg cyn ei farwolaeth yn 1761 (yn frwd dros foderneiddio ei gwlad fabwysiedig, comisiynodd yr Ymerodres Catrin Fawr o Rwsia adroddiad ar ysgolion cylchynol Jones yn 1764, ac fe'u hawgrymwyd unwaith eto yn batrwm ar gyfer y byd datblygol gan UNESCO yn 1955). Roedd yr ysgolion hyn o'r pwys mwyaf wrth wneud Cymry'r 18G yn boblogaeth oedd yn llythrennog yn eu hiaith eu hunain ac yn berchen ar wybodaeth ddofn o'r ysgrythur Gristnogol. Ac yntau'n frwd dros ledaenu gair Duw, pregethai Jones yn yr awyr agored ac er iddo gael ei geryddu gan ei esgob am hynny, dyma'r ffordd y llwyddodd i fod yn rhagflaenydd i'r Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru a ddechreuodd yn y 1730au. Roedd y diwygiad yn fudiad efengylaidd o fewn yr Eglwys Anglicanaidd a dyfodd yn gyflymach gyflymach ar ôl tröedigaeth ysbrydol 1735 Howell Harris o Dalgarth, Sir Frycheiniog (enwau eraill sy'n gysylltiedig â'r diwygiad yw Daniel Rowland ac William Williams). Yn wahanol i'r Methodistiaid Saesneg a ddilynai John Wesley ac a oedd yn ddiweddarach i sefydlu canghennau yng Nghymru, yn aml o ganlyniad i'r chwyldro diwydiannol, roedd y Methodistiaid Cymraeg yn Galfiniaid a hyd nes iddynt ymneilltuo o'r Eglwys Anglicanaidd yn 1811, bu iddynt sefydlu mudiad oedd fwy neu lai yn baralel i'r Eglwys ac oedd â'i hierarchiaeth ei hun wedi'i drefnu yn seiadau ac yn berchen ar ei gapeli (tai cwrdd) ei hun. Roedd yr hen anghydfurfwyr wedi bod ar eu cryfaf yn Ne Cymru a dyna ymhle dechreuodd y Diwygiad Methodistaidd, ond ni chymerodd yn hir i ledu i Ogledd Cymru lle byddai'n monopoleiddio Anghydfurfiaeth bron â bod. Parhaodd ysgolion cylchynol Griffith Jones ar ôl ei farwolaeth, ond Thomas Charles, a gysylltir â'r Bala, a lansiodd ysgolion cylchynol y Methodistiaid eu hunain ar ôl 1784, ac yn 1787 sefydlodd yr ysgol Sul gyntaf, a lledaenodd hyn yn fuan ymysg y Methodistiaid Calfinaidd a'r holl enwadau Anghydfurfiol eraill yng Nghymru. Gwnaeth Charles lawer i ddosbarthu Beiblau Cymraeg ymysg y boblogaeth (ato ef y cerddodd Mary Jones 25 milltir yn 1800 i nôl Beibl) ac fe

gyhoeddodd hefyd eiriadur Beiblaidd pwysig yn 1805-11. Bu i Ddiwygiad Methodistiaidd Calfinistaidd y 18G (yn ogystal ag ymddangosiad y Methodistiaid Wesleiaidd a'r Undodwyr), roi hwb i hen enwadau ymneilltuol megis yr Annibynwyr (y Cynulleidfawyr) a'r Bedyddwyr, ac ar ddechrau'r 19G cafwyd y fath dwf mewn Anghydfurfiaeth (neu Ymneilltuaeth fel y'i gelwir hefyd) nes erbyn canol y ganrif roedd y Cymry wedi dod yn "Genedl Anghydfurfiol" erbyn diwedd y 19G. Roedd twf Anghydfurfiaeth yn bwysig mewn o leiaf tair ffordd: (1) roedd ei defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng ysgrifenedig yn ogystal â llafar wedi cynorthwyo i feithrin hunan-barch cenedlaethol y Cymry; (2) er gwaethaf bod yn anwleidyddol bu i'r sefydliad drwy Gymru gyfan feithrin hunanymwybyddiaeth Gymreig; a (3) dangosodd yn ymarferol sut y gallai mudiadau democrataidd weithio, ac mewn cyfnod o ryddfrenio pan oedd mudiadau democrataidd cyfundrefnol yn dod i'r fei, roedd hyn yn hanfodol wrth roi modd i Gymru addasu i'r byd diwydiannol newydd. Yn ystod y 19G cyhoeddwyd llyfrau a chylchgronau Cymraeg mewn niferoedd nas gwelwyd cyn hynny, cafwyd papur newydd llafur o'r enw *Tarian y Gweithiwr* yn y 1870au a chyhoeddwyd *Y Gwyddionadur Cymreig* yn 1854-79. Gwrthwynebiad llwyr i'r gwledydd Celtaidd eraill, yn enwedig Iwerddon a Llydaw, yw lledaeniad eang llythrennedd mewn cymdeithas Gymraeg ei hiaith yn y 19G a'r holl fanteision a ddeilliai o hynny.

Nodwedd hanfodol arall yn hanes Cymru oedd y twf mewn diwydiant yn y de-ddwyrain (yn bennaf yn siroedd Sir Forgannwg, dwyrain Sir Fynwy a gorllewin Sir Gaerfyrddin). Mwyndoddi haearn oedd yn bwysig ar y dechrau yn y 18G a lledaenodd y gweithfeydd toddi ar hyd coridor cul o dir oedd yn estyn o Lanelli yn Sir Gâr i Lanelli yn Sir Frycheiniog (gan gyfateb yn rhannol i "blaenau'r cymoedd") nes erbyn 1830 tref mwyndoddi haearn Merthyr Tudful oedd y dref fwyaf yng Nghymru. Yma yn 1831 cododd y dosbarth diwydiannol, Cymraeg eu hiaith yn bennaf, yn erbyn y meistri ond fe'u gwastrodwyd gan filwyr o'r Alban. Erbyn canol y 19G, roedd y pwyslais wedi symud tuag at lo ac yng nghymoedd De Cymru cafwyd twf esbonyddol o boblogaeth wrth i bobl lifo i'r trefi glofaol newydd a gododd fel madarch drwy'r de. Ar y dechrau Cymry yn bennaf oedd y boblogaeth newydd i gyrraedd, ond o'r 1860au ymlaen denwyd nifer o siroedd cyfagos gorllewin Lloegr ac arweiniodd y dwyieithrwydd cymdeithasol a ddaeth yn ei sgil, ynghyd â pholisïau gwrth-Gymraeg y wlad, at lithriad ieithyddol, gan ddechrau yn y cymoedd dwyreiniol ond gan ymledu i'r gorllewin degawd wrth ddegawd ac o gwm i gwm (ac felly, er enghraifft, bu llithriad ieithyddol i'r Saesneg yn y Rhondda yn y 1920au, yng nghwm Nedd yn y 1930au ac yng nghwm Tawe yn y 1940au). Serch hynny, roedd canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn dal bron yn 50% yn 1901, ond am y rhan fwyaf o'r 20G enciliodd yr iaith (37% yn 1931, 29% yn 1951, 21% yn 1971, 19% yn 1991) [Aitchison & Carter 2000: 42, 51, 90]. Yn 1901 roedd Cymru, wrth gwrs, yn wlad wedi'i rhannu'n ieithyddol, gyda'r gorllewin yn Gymraeg ei iaith a'r dwyrain wedi'i seisnigo ac wrthi'n cael ei seisnigo. Cwmpodd siroedd y gorllewin a oedd tua 90% yn

1901 i tua 60% yn 1991, oherwydd mewnfudo o Loegr. Gwelwyd dirywiad mwy trawiadol yn y Gymraeg yn y de-ddwyrain diwydiannol oedd wedi'i Seisnigo yn sylweddol yn ystod y 19G, aeth Sir Forgannwg o 43% yn 1901 i 10% yn 1991 [Aitchison & Carter 2000: 42, 90]. Er bod y rhaniad yn fwy diweddar, mae Cymru wedi'i rhannu yn ieithyddol – gymaint â Llydaw neu'r Alban – rhwng 'Y Fro Gymraeg' (cadarnle'r Cymry Cymraeg) a'r Gymru mwy seisnigaidd. Mae ardal ddiwydiannol de-ddwyrain Cymru – sef y 'Cymoedd' – yn wahanol i'r Gymru Gymraeg a'r un sydd wedi'i seisnigo: mae'r cof mai'r Gymraeg oedd yr iaith yma tan yn ddiweddar yn amlwg yn y ffaith fod cynifer o bobl yma ag o leiaf un tad-cu neu fam-gu a siaradai Gymraeg ac mae hefyd i'w weld yn bendant yn yr acen Gymreig ddofn sydd ganddynt. I bobl ddinesig Caerdydd a Chasnewydd, mae pobl y Cymoedd yn dal yn 'Taffs' (sef y llysenw Seisnig difriol am y Cymry, yn deillio o'r enw personol cyffredin 'Dafydd').

Yn araf datblygodd bywiogrwydd diwylliannol Cymraeg y 19G i fod yn hunaniaeth wleidyddol. Un o'r cenedlaetholwyr adnabyddadwy cyntaf oedd y pregethwr Michael D. Jones, oedd â rhan allweddol wrth ysbrydoli'r ymgais i gael trefedigaeth oedd yn rhydd rhag rheolaeth Lloegr a hynny ym Mhatagonia, yn yr Ariannin. Mae stori'r Cymry ym Mhatagonia, lle'r ymsefydlwyd yn gyntaf yn 1865, yn un hynod gyfareddol am gymdeithas Gymraeg yn sefydlu cymuned yn anialwch sych a mynyddoedd uchel yr Andes, gan fyw ochr yn ochr â'r Tehuelche Amerindiaid brodorol, a brwydro i gael ymreolaeth o lywodraeth ganolog Ariannin. Am gyfnod hyd at y 1880au roedd yna 4,000 o bobl yn endid gwleidyddol Cymraeg oedd gan mwyaf yn hunanlywodraethol; roedd gan bob person dros 18 oed yr hawl i bleidleisio, ac roedd addysg a'r holl fusnes swyddogol yn Gymraeg. A hwythau'n ofni y byddai Prydain yn defnyddio'r drefedigaeth Gymreig fel esgus dros feddiannu pen deheuol America, ni chydabu llywodraeth yr Ariannin y drefedigaeth erioed fel gwladwriaeth ac erbyn 1896 roedd mwy o ymfudwyr Sbaeneg ac Eidaleg na'r ymsefydlwyr Cymraeg, a disodlwyd y Gymraeg gan y Sbaeneg fel cyfrwng gwersi addysgol (daeth mewnfudo o Gymru i ben yn llwyr ar ôl 1914 ond hyd heddiw mae nifer o'r preswylwyr hŷn wedi'u cadw Cymraeg ochr yn ochr â'r Sbaeneg).

Tra bod arbrawf Patagonia ar ei anterth, roedd y Cymry yn ochri â'r blaid Ryddfrydol wrth frwydro yn erbyn eu landlordiaid. Yn 1868, yn yr etholiad cyntaf y gellir ei ystyried yn gynrychioladol, rhoesant fuddugoliaeth i'r Rhyddfrydwyr yn erbyn y Ceidwadwyr (a gynrychiolai'r landlordiaid). Hyd at 1918 roedd Cymru wedi parhau i fod yn wlad Ryddfrydol gadarn, yn wahanol i Loegr oedd wedi siglo'n ôl ac ymlaen rhwng Rhyddfrydiaeth a Cheidwadaeth. Roedd Rhyddfrydiaeth Cymru wedi'i chysylltu'n gryf ag Anghydfurfiaeth, ac roedd achosion megis y degwm (Rhyfel y Degwm yn y 1880au) a datgysylltu'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru (a ddigwyddodd yn 1920) yn bynciau llosg pwysig megis oedd y rhyfel tir. Er hynny, yn araf bach a fesul tipyn sleifiodd elfen o genedlaetholdeb i wleidyddiaeth,

roedd y newyddiadurwr Emrys ap Iwan yn llais unig yn y 1880au, ond bu i'w feirniadaeth lem glwyfo i'r byw ymysg rhai Rhyddfrydwyr Cymraeg. Am gyfnod byr yn gynnar yn y 1890au, bu cangen o'r Rhyddfrydwyr o'r enw Cymru Fydd (sef Cymru'r dyfodol), a hyrwyddai 'ymreolaeth' dros Gymru ond methodd hyn yn y Gymru oedd yn fodlon cefnogi pleidiau Prydeinig nad oeddynt yn Geidwadol, sef y Rhyddfrydwyr yn wreiddiol ac yna'r mudiad Llafur. Roedd fel petai llwyddiant o fewn Prydain a'r Ymerodraeth Brydeinig yn ddigon i lawer. Er gwaetha'r ffaith i Lloyd George, Cymro Cymraeg a chyn-arweinydd y mudiad Cymru Fydd, ddod yn brif weinidog yn 1916, arweiniodd ysgytiad rhyfel 1914-18 at rai pobl yn amau fel nas gwnaethpwyd o'r blaen pa resymeg oedd amddiffyn Cymru drwy bleidiau gwleidyddol Prydain gyfan. Arweiniodd yr anniddigrwydd hwn at greu dau grŵp cenedlaetholgar yn 1924 a gyfunodd yn 1925 i fod yn Plaid Genedlaethol Cymru. O dan ei harweinydd Saunders Lewis, bu Plaid Cymru, fel y'i gelwid yn ddiweddarach, yn rym gwleidyddol bychan ac aneffeithiol hyd at y 1960au, ond ar ôl iddi roi'r gorau i'w pholisi uniaith Gymraeg yn 1930 a'i delwedd lai elitaidd o dan Gwynfor Evans ar ôl 1945, braenarwyd y tir ar gyfer ei llwyddiant. Daeth y llwyddiant i fwcwl yn 1966 pan etholwyd Gwynfor Evans yn Aelod Seneddol yn isetholiad Sir Gaerfyrddin. Ar ôl hynny, yn y deng mlynedd ar hugain wedyn – er gwaethaf rhai achosion o wrthdroi – daeth Plaid Cymru i fod y grym gwleidyddol cryfaf yn y Gymru Gymraeg. Collwyd refferendwm datganoli 1979, lle gwrthwynebai nifer o wleidyddion Llafur y syniad, ond dangosodd y cyfnod o lywodraeth geidwadol wedi hynny o dan Margaret Thatcher a'r Ceidwadwyr beth fyddai manteision datganoli i lawer o gefnogwyr Llafur, ac erbyn ail refferendwm datganoli 1997 fe'i henillwyd o drwch blewyn drwy gefnogaeth y Gymru Gymraeg a chymoedd diwydiannol De Cymru.

Gosodwyd y bomiau lled-derfysgol cyntaf i brotestio ynghylch boddi cwm Tryweryn ger y Bala yn 1962. Daeth y mudiad parafilwrol hynod amlwg Byddin Rhyddid Cymru / Free Wales Army (FWA) yn adnabyddus o 1964 ymlaen ond nid oedd yn ymwneud lawer â gosod bomiau gan fod hynny yn hytrach yn waith ffigyrau oedd mwy yn y cysgodion ac a arestiwyd yn ddiweddarach (neu eu lladd fel y ddau oedd ar fin gosod bom ar lwybr trên brenhinol y Tywysog Siarl ar ei ffordd i'w goroni'n Dywysog Cymru yng Nghaernarfon yn 1969). Yn 1979, yn dilyn colli'r refferendwm datganoli, dechreuwyd ar ymgyrch o losgi tai gwyliau neu 'dai haf' oedd dan berchnogaeth y Saeson, a'r ymgyrch wedi'i chynnal yn enw Meibion Glyndŵr, gan gyfeirio at Owain Glyndŵr tywysog Cymru yn yr Oesoedd Canol oedd wedi brwydro dros ryddid (gyrrwyd negeseuon dirgel, wedi'u llofnodi 'Rhys Gethin', sef is-gapten ffyddlon y Glyndŵr gwreiddiol). Tawelodd y llosgi tai haf yn niwedd y 1980au ond dychwelodd yng nghanol y 1990au.

Yn y flwyddyn 1962 sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg gan fyfyrwyr Cymraeg yn Aberystwyth. Drwy ysbrydoliaeth pamffled a darllediad radio Saunders Lewis o'r enw *Tynged yr Iaith* yn y flwyddyn honno a dylanwad gwrthsafiad di-drais Gandhi, aeth y Gymdeithas ati i

gwyno am y diffyg darpariaeth swyddogol i siaradwyr Cymraeg. Yng nghanol y 1960au roedd yr holl arwyddion swyddogol yn Saesneg yn unig, câi enwau lleoedd Cymraeg eu gosod ar arwyddion o dan eu fersiynau Saesneg ac roedd ffurflenni swyddogol ar gyfer treth, cerbydau, trwyddedau, cofrestru ceir ac ati yn Saesneg yn unig. Dewisodd Cymdeithas yr Iaith ymgyrchu ar faterion penodol a thros y blynyddoedd maent wedi ehangu eu galwadau am addysg, radio a theledu yn Gymraeg. Yn 1970 dadleuai tueddiad o'r enw Adfer o dan Emyr Llywelyn dros roi holl sylw ar gadarnleoedd y Gymraeg yn hytrach na thaenu egni y lleiafrif Cymraeg ar Gymru fel cyfanrwydd, roedd hwn yn fater anodd a thringar a diarddelwyd Adfer o Gymdeithas yr Iaith, ac ar ôl hynny gwywodd yn araf deg. Serch hynny roedd Adfer wedi tynnu sylw at y problemau cymdeithasol oedd yn ymwneud ag atal dirywiad y Gymraeg ac aeddfedodd Cymdeithas yr Iaith yn y man i fod yn garfan bwyso yn ymgyrchu dros dai a phenodiadau swyddi nad oedd yn anfantheisiol i siaradwyr Cymraeg. Roedd Cymdeithas yr Iaith ei hun wedi colli ei sbarc erbyn y 1990au, yn bennaf oherwydd roedd ei phrotestiadau fel petaent bellach yn ddefodau o ailadrodd ffurf, os nad cynnwys, protestiadau poblogaidd y 1960au a'r 1970au. Mae'n wir unwaith y cafwyd consesiynau, nid oedd gwahaniaethu swyddogol yn erbyn y Gymraeg mor agored ag yr oedd, yn wir roedd rhai Cymry a gyfetholwyd i gynlluniau'r llywodraeth i gefnogi'r Gymraeg yn datgan yn gyhoeddus nad oedd angen bellach i brotestio. Daeth mudiad newydd o'r enw 'Cymuned' i fodolaeth yn 2001 ac ymddengys fel petai'n cyhoeddi dull newydd mwy trefnus o brotestio dros yr iaith Gymraeg.

Mae addysg cyfrwng-Cymraeg wedi datblygu'n aruthrol er 1945. Yn sgil sefydlu'r ysgol gynradd Gymraeg breifat gyntaf yn Aberystwyth yn 1939, sefydlwyd yr ysgol gynradd Gymraeg swyddogol gyntaf yn Llanelli yn 1947 ac roedd y rhain wedi cynyddu i 41 erbyn 1970. Yr ysgol uwchradd gyfrwng-Cymraeg gyntaf oedd Glan-clwyd ger Llanellwyr a agorodd yn 1956, ac fe'i dilynwyd gan eraill hyd nes bod 14 ysgol o'r fath yn bodoli erbyn 1990. Y tu hwnt i adrannau Cymraeg lle mai'r Gymraeg fel arfer yw'r cyfrwng dysgu a rhai adrannau diwinyddol, mae dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi ehangu i gynnwys nifer cyfyngedig o bynciau ers y 1960au (ond dim ond ym mhrifysgolion Aberystwyth, Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin). Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion cyfrwng-Cymraeg wedi'u lleoli yn yr ardaloedd trefol seisnigaidd tra bod yr ardaloedd Cymraeg cryf yn tueddu i ddysgu'r rhan fwyaf o bynciau yn Saesneg, er y defnyddid y Gymraeg yn anffurfiol ac mewn gwasanaethau yn yr ysgolion i raddau helaeth.

Datblygodd teledu Cymraeg yn y 1960au (yn wir roedd cwmni teledu o'r enw *Teledu Cymru* wedi'i ffurfio yn 1962 er iddo dorri yn y flwyddyn ganlynol) a darlledwyd rhaglenni Cymraeg ar y sianeli gwladol a'r rhai masnachol, ond prin iawn oeddynt. Roedd radio Cymraeg eisoes wedi cael sianel, sef Radio Cymru, yn 1977 oedd yn hynod boblogaidd, ac arweiniodd y twrw cynyddol i gael sianel deledu Gymraeg yn y pen draw at y llywodraeth Geidwadol yn rhoi Sianel Pedwar

Cymru (S4C) i Gymru yn 1982. Enillodd y sianel droedle iddi'i hun yn gyflym, gan ddarlledu tua 5 awr y dydd yn Gymraeg ar oriau brig, ac mae'i adnoddau wedi bod yn destun cenfigen yn yr holl wledydd Celtaidd eraill (adroddir fod gan S4C adnoddau ariannol sydd ddeng gwaith yn fwy na'r sianel Wyddeleg gyfatebol TG4). Yn ddiweddar symudodd S4C i fyd y lloeren ac nawr mae ganddi S4C Digidol sy'n darlledu hyd yn oed fwy o oriau Cymraeg yn ddyddiol i bob cwr o'r byd.

Mae'r byd Cymraeg wedi newid yn ddramatig ers y 1960au, mae ardaloedd Cymraeg bellach yn hanner Saesneg oherwydd mewnfudo gan siaradwyr Saesneg. Yn hytrach na'r protestio oedd yn nodweddiadol o fyfyrwyr hyd at ddiwedd y 1970au, ymddengys fod siaradwyr Cymraeg ifanc yn manteisio ar y cyfle a'r gyrfaedd a grëwyd yn sgil mwy o barch swyddogol at y Gymraeg mewn ysgolion, ar deledu Cymraeg ac yn y Cynulliad yng Nghaerdydd.

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

BETTS, Clive. 1976 *Culture in Crisis*. (Upton: Ffynnon).

DAVIES, Janet. 1999 *The Welsh Language*. (Cardiff: University of Wales Press).

*DAVIES, John. 2007. *A History of Wales*. (London: Penguin). (Penodau 6–11).

JENKINS, Geraint H. (gol.) 2000 *The Welsh Language and its Social Domains, 1801–1911*. (Cardiff: University of Wales Press).

JONES, Bobi. 1974. 'The roots of Welsh inferiority'. Yn *Planet* 22.53–72.

MCALLISTER, Laura. 2001. *Plaid Cymru: the Emergence of a Political Party*. (Bridgend: Seren).

MORGAN, Prys. 2002 *The Tempus History of Wales 25,000 BC – AD 2000*. (Stroud: Tempus).

PHILLIPS, Dylan 1998 *Trwy Ddulliau Chwyldro...? Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962–1992* (Llandysul: Gomer).

*WILLIAMS, Gwyn A. 1985 *When was Wales? A History of the Welsh*. (London: Black Raven). (Penodau 6–13).

Adnoddau ar y We

'Cymuned'. Yn < <http://en.wikipedia.org/wiki/Cymuned> >

'Cymuned'. Yn < http://cymuned.net/blogsaesneg/?page_id=21 >

'Welsh Language Society'. Yn < http://en.wikipedia.org/wiki/Welsh_Language_Society >

'Welsh Language Society'.

Yn < http://cymdeithas.org/2004/05/31/what_is_cymdeithas_yr_iaith.html >

'Welsh nationalism'. Yn < http://en.wikipedia.org/wiki/Welsh_nationalism >

5.5 CERNYW (11G hyd at heddiw)

Yn dilyn ymlaen o oresgyniad y Normaniaid Ffrangeg ar Loegr yn niwedd yr 11G, rhoddwyd Cernyw yn y lle cyntaf i arglwydd o Lydaw, sef Briant mab Iarll Penthièvre, a gollodd ei diroedd drwy wrthryfel yn 1075. Yn ei le daeth y Norman, Robert Iarll Mortain ac yna'i fab, ac yn 1135 dyfarnodd y Brenin Stephen Gernyw i nai Briant, sef Alan, Iarll Richmond, er iddo ef gael ei ddal yn 1141 yn ystod rhyfel cartref Lloegr rhwng Stephen a Matilda gan ddychwelyd i Lydaw, a

Stephen wedyn yn rhoi Cernyw i Reginald de Dunstanville, mab anghyfreithlon Harri I. Cymododd Reginald â Matilda, ac o dan ei mab, Harri II, bu'n rheoli Cernyw hyd at 1175. Roedd Cernyw erbyn hyn wedi dod yn sefydliad iarllaeth oedd wedi'i chysylltu'n agos â theulu brenhinol Lloegr. Tybed oedd yr agosatrwydd ethnig wedi bod yn rhan wrth benodi Llydawyr yn ieirll Cernyw ac a oedd hyn wedi bod â rhan wrth drosglwyddo chwedlau Arthur a Trystan ac Esyllt (Tristan ac Isolde), oedd wedi'u cysylltu â Llydaw yn ogystal â Chernyw? Cododd Iarll Richard gastell yn Tintagel yn y 13G, a hynny, gellid tybio, ar gryfder y traddodiadau Arthuraidd ac efallai fod ei feddiant ar y teitl Ymerawdwr Rhufeinig Sanctaidd yn 1257-72, er yn anrhydeddus gan mwyaf, rywbeth i'w wneud hefyd â lledaeniad chwedlau Arthur yn yr Almaen. Yn 1337 sefydlodd Edward III Gernyw yn ddugiaeth oedd â'r ddyletswydd o ddarparu refeniw i etifedd Gorsedd Lloegr (sydd wedi parhau hyd heddiw gan mai un o deitlau etifedd y frenhines bresennol yw Dug Cernyw yn ogystal â Thywysog Cymru, hefyd wedi'i greu yn 1307). Sawl canrif yn ddiweddarach daeth y Ddugiaeth yn gyfres o ystadau, ond hyd yn oed mor ddiweddar â'r 1850au dadleuai cyfreithwyr y Ddugiaeth fod Cernyw wedi bod fel Cymru yn deyrnas ar wahân a bod ganddi bob hawl yr oedd gan y Goron mewn llefydd eraill ym Mhrydain. Sefydliad canoloesol arall (neu sefydliadau cysylltiedig) yn benodol i Gernyw oedd y Stanariau a reolai'r diwydiant mwyngloddio tun pwysig. Roedd y drefn Stanari wedi esblygu o hen hawliau arferedig a roddwyd i fwyngloddwyr (megis mewn rhannau eraill o Loegr ac Ewrop) ond yn wahanol i ardaloedd eraill o 'fwyngloddio am ddim', roedd wedi datblygu yng Nghernyw i fod ag annibyniaeth diriogaethol bron yn dilyn ei siatr yn 1201. Gellir cymharu'r breintiau a roddwyd i fwyngloddwyr tun â statws bwrdeisiaid mewn bwrdeistrefi siartredig oni bai bod natur mwyngloddio a ffordiadau yn rhoi'r hawliau penodol hyn iddynt ledled Cernyw gyfan. Roedd môr-ladrata llongau – boed rhai o Lydaw, Sbaen, Ffrainc, Almaen neu Loegr – hefyd yn digwydd o borthladdoedd Cernyw yn niwedd yr Oesoedd Canol pan oedd porthladdoedd dwyrain Cernyw a Phum Porthladd (Cinque Ports) de-ddwyrain Lloegr yn cynnal rhyfel preifat. Ymosododd llynges o Lydaw ar Fowey yn 1457. Er hynny, tystir yn uniongyrchol mewn dogfennau i gysylltiadau mwy heddychlon, megis mewn enwau teulu megis Tangye, Harvey, Britton, ac yn fwy anuniongyrchol ym modolaeth rhai enghreifftiau o bensaerniaeth eglwysig Gothig Llydewig. Cyn hwyred â 1537, âi rhai pererinion o Gernyw i ddygwyl yn Tréguier yn Llydaw.

Roedd statws Cernyw felly yn neilltuol yn nheyrnas ganoloesol Lloegr a sylfaen yr hynodrwydd hwn oedd y gwahaniaeth ethnig y sylwyd arno'n gyson rhwng y Cernywiaid a'r Saeson. Er y ceir arwyddion o seisnigo yn ystod yr Oesoedd Canol diweddarach, roedd John de Trevisa (†1402, o ddwyrain Cernyw o bosibl), ysgolhaig a addysgwyd yn Rhydychen ac a oedd yn ddiffynnydd brwd cynnar dros y defnydd o Saesneg yn hytrach na Ffrangeg neu Ladin, hefyd yn groendenau iawn o ran peidio ag ystyried Cernyw yn rhan o Loegr. Er gwaethaf encilio

diamheuol am y gorllewin yn niwedd yr Oesoedd Canol, roedd y Cernywiaid (neu'r Cymry fel yr oeddynt yn dal yn cael eu galw mor ddiweddar â'r 14G) yn dal i siarad eu hiaith dros ychydig mwy na hanner gorllewin y penrhyn hyd at yr 16G. Roedd yr eglwys golegaidd yn Glasney (sefydlwyd yn 1265) ger Falmouth o ddiwedd y 14G yn ganolfan traddodiad llenyddol Cernyweg Ganol ac yno lluniwyd dramâu miragl hir a berfformiwyd yn yr awyr agored. Ymddengys fod un o'r dramâu hyn, *Beunans Meriasek* ('Buchedd Sant Meriasek') a gyfansoddwyd tua 1500, ag islais chwyldroadol gan fod y sant lleol yn ffraeo â brenin drwg o'r enw Tewdar (na ellid ond wedi'i ddeall fel cyfeiriad at Harri Tudor) oedd newydd ddarostwng gwrthryfel yn giaidd yng Nghernyw.

Roedd gwrthryfel Cernyw yn 1497 yn un difrifol, gan ddechrau ym mhlwyfi'r gorllewin o dan Michael Joseph an Gof, sef gof lleol, a lledaenu drwy Gernyw gyfan gan ddenu llawer o'r uchelwyr. Ymddengys fod cwynion y Cernywiaid yn ymwneud yn bennaf â'r economi ac fe'u hysgogwyd gan y trethi trwm a fynnai Harri VII ganddynt ar gyfer rhyfel i gosbi'r Albanwyr a oedd yn cefnogi'r ymhonnwr i orsedd Lloegr, Perkin Warbeck. Croesodd byddin Cernyw dros afon Tamar a throedio mor bell â Blackheath ar gyrion Llundain lle'u trechwyd hwy'n fuan. Ysbrydolwyd Perkin Warbeck gan barodrydd y Cernywiaid i wrthryfela, ac ar ôl glanio yng Nghernyw yn ddiweddarach y flwyddyn honno, cododd fyddin arall o Gernyw a symudodd mor bell i'r dwyrain â Gwlad yr Haf (Somerset) cyn i bethau fynd o chwith; gadawodd Warbeck ei fyddin ac fe'i daliwyd gan ddynion Harri VII. Dyma oedd y bygythiad mwyaf peryglus i Harri VII yn ystod ei deyrnasiad ac eto ar ôl sicrhau dienyddio'r arweinyddion roedd yn ddigon trugarog â dilynwyr y gwrthryfel oherwydd eu "rustic simplicitys" a dewisodd godi dirwy ar y gwrthryfelwyr a chyhoeddwyd Siarter Maddeuant yn 1508. Cadarnhaodd y Siatr hon bŵer Senedd Stanari (*Stannary*) i wrthod unrhyw ddeddfu gan y brenin neu'r Dug oedd yn anfaiteisiol i fwyngloddwyr Cernyw. Roedd pwnc llosg arall ar fin tanio llid y Cernywiaid, sef Lloegr yn gwahanu o'r Eglwys Gatholig. Yn 1539 roedd sôn am sefydlu esgobaeth Gernywaidd ond ni ddaeth hyn i ddim ac yn 1548 ar ôl marwolaeth Harri VIII, cafwyd hwb Protestannaidd o dan Edward VI oedd yn bygwth ymyrryd â'r delweddau defosiynol a gedwid mewn eglwysi (yng Nghernyw cafodd comisiynydd a geisiai orfodi'r gyfraith hon yn Helston ei ladd gan dorf ddig ond rhoddwyd diwedd ar y terfysg hwn yn syth). Yn sgil Deddf Unffurfiaeth 1549 cafwyd y Llyfr Gweddi Cyffredin yn Saesneg, gan arwain at gythrwfl ledled Cernyw ac ymdeithiodd byddin Cernyw dros yr afon Tamar i roi Caerwysg dan warchae (dylid nodi i weithwyr gwaith tun Dyfnaint ymuno â hwy). Eu gofynion oedd cael yr hen litwrgi yn ôl, a datgan pa mor amhriodol oedd gwasanaeth Saesneg i wlad lle nad oedd llawer yn siarad yr iaith. Torrwyd ar y gwarchae gan filwyr y Brenin o dan yr Arglwydd Grey a chosbwyd y gwrthryfelwyr yn waedlyd iawn, gan gynnwys llawer o glerigwyr. Roedd gorfodi sefydlu Protestaniaeth Saesneg yn amharu'n fawr ar

y Gernyweg ac ni wnaed unrhyw ymgais i ddarparu deunydd defosiynol yn yr iaith Gernyweg. Eto ymddengys fel petai cyswllt rhwng Catholigiaeth a'r Gernyweg serch hynny. Yn ystod teyrnas y Frenhines Mary, cyfieithodd dyn o'r enw John Tregear *Homilies* Esgob Bonner o Lundain (ni ailddarganfuwyd y llawysgrif – oedd yn gyfieithiad gwael – tan 1949); dywedwyd mai prif arbenigwr yr iaith yn 1590 oedd offeiriad Catholig yn Saint Columb Major a phregethodd offeiriad Catholig arall, Richard Pendrea, yn y Gernyweg o flaen y Brenin Phillip o Sbaen yn 1600. Ymhellach, yn sgil ymgorffori Llydaw â Ffrainc yn ystod y 16G a'r elyniaeth a'r ddrwgdybiaeth rhwng Lloegr a Ffrainc, daeth y cysylltiadau oedd unwaith yn hawdd â Llydaw yn anoddach nag erioed (dylid cofio fod y Gernyweg a'r Llydaweg yn ddealladwy i'w gilydd i raddau helaeth yn ystod yr holl gyfnod hwn, ac o leiaf un arbenigwr yn dadlau y gellid ystyried y Gernyweg yn dafodiaith o'r Llydaweg).

Erbyn canol y 16G roedd Lloegr ar ei ffordd i wrthdaro â Sbaen a'i Hymerodraeth, a bu gan herwlongwyr o Gernyw ran flaengar yn y rhyfel ar y môr – ni thorrwyd ar draws y rhyfel hwn hyd yn oed pan oedd heddwch swyddogol rhwng y ddwy wlad. Gwaethygodd y sefyllfa yn negawdau olaf y ganrif (Armada Sbaen 1588, y Sbaenwyr yn meddiannu Llydaw yn 1590 fel rhan o ryfeloedd crefyddol Ffrainc) a bu i gyrch gan y Sbaenwyr roi porthladdoedd Mousehole, Newlyn a Penzance ar dân yn 1595. Roedd safle Cernyw yn cyflym newid o fod yn 'the ends of the ends of the earth' i aralleirio disgrifiad o'r 14G, i fod bellach yn arhosfan strategol ar gyfer y Byd Newydd a daeth harbwr Falmouth yn brif ganolfan morol.

Ar ddechrau Rhyfeloedd Cartref Lloegr yn 1642, roedd Cernyw yn gadarnle brenhinol teyrngar (yn fwy felly oherwydd tra-arglwyddiaeth y Ddugiaeth), yn 1644 lleihawyd byddin y Senedd o 7,000 i 1,000 o ddynion yn y 'Cornish mousetrap' ond yn 1646 ildiodd y lluoedd brenhinol i'r Senedd (er i ynysoedd y Scilly barhau i fod yn ganolfan i herwyr brenhinol tan 1651). Bu i'r Seneddwyr o dan Cromwell orfodi Piwritaniaeth lem gan amddifadu clerigwyr o'u bywoliaeth, chwalwyd Senedd y Stanari a chwtogwyd cynrychiolaeth fawr o 42 aelod seneddol i ddeuddeg ohonynt. Bu gwrthryfel yn 1648, eto ar benrhyn y Lizard, ond fe'i ffrwynwyd yn lleol. Arweiniodd adfer y frenhiniaeth yn 1660 at ddirymu holl ddatblygiadau'r rhyngdeyrnasiad ac ymsefydlodd Cernyw yn heddychlon. Torrwyd ar yr heddwch yn unig pan wrthododd Jonathan Trelawny, esgob brenhinol o Gernyw, gadarnhau datganiad pardwn (goddefgarwch) y Brenin Catholig Iago II yn 1687 i Gatholigion ac Anghydfurfwyr Protestannaidd. O ganlyniad fe'i carcharwyd yn Nhŵr Llundain, ond methodd yr achos yn ei erbyn ef a chwe esgob arall gan y cafwyd hwy'n ddieuog gan y rheithgor. Arweiniodd hyn at ddechrau'r rhediad o ddigwyddiadau a arweiniodd at y 'Chwyldro Gogoneddus' a ddiorseddodd Iago II. Oherwydd i R. S. Hawker yn 1820 gyfansoddi 'Trelawny' – a ddaeth yn anthem 'genedlaethol' boblogaidd answyddogol i Gernyw, a chefnogwyr rygbi o Gernyw yn cael yr enw 'byddin Trelawny' – cysylltid gwrthsafiad

ceidwadol yr Esgob Trelawny yn rhamantaidd ('Here's twenty thousand Cornishmen will know the reason why') â gwrthsafiad Cernyw yn erbyn awdurdod canolog.

Yn yr 17G crebachodd y Gernyweg fel iaith a siaradid dros lawer o orllewin Cernyw, ac erbyn 1700 ni chât ei siarad ond yn eithafoedd Lizard a Gorllewin Penwith. Yn ôl pob cyfrif roedd trosglwyddo'r iaith i blant wedi dod i ben yn y 1710au, ac felly y rhai a siaradai'r iaith yn niwedd y 18G wir oedd y siaradwyr brodorol olaf. Ers diwedd y 18G honnwyd mai hen ddynes o'r enw Dolly Pentreath o Mousehole, a fu farw yn 1777, oedd y siaradwr olaf (a chodwyd cofeb iddi am hyn gan yr ieithydd enwog Louis-Lucien Bonaparte yn 1860), er bod eraill yn ddi-os yn gallu siarad yr iaith ar ôl ei marwolaeth (sef William Bodinar o'r un pentref a fu farw yn 1794). Erbyn 1800 roedd yr iaith i bob diben wedi dod i ben. Gan fod diflaniad y Gernyweg ar fin digwydd, denwyd sylw deallusol nifer o Gernywiaid lleol megis y teulu Boson, Thomas Tonkin a William Gwavas. Aeth y dynion hyn ati i gasglu cymaint ag y gallent o'r iaith oedd ar fin diflannu ac ychwanegwyd at eu gwaith gan ymweliad yr ysgolhaig Cymraeg o Rydychen Edward Lhuyd a'i gynorthwyr yn 1700. Goroesodd yr iaith mewn geiriau yn nhafodiaith Saesneg gorllewin Cernyw yn yr 20G gan hefyd ddangos goslef neilltuol. Ond o'r 19G ymlaen roedd y Gernyweg fel iaith fyw yn ddim ond brith atgof.

Er gwaethaf colli'r Gernyweg, cadarnhawyd hunaniaeth wahanol Cernyw ar wahân i weddill de-orllewin Lloegr erbyn dechrau'r 1800au yn sgil diwydiannu gorllewin Cernyw yn y 18G a sefydlu Methodistiaeth Wesleiaidd anghydfurfiol fel y brif grefydd. Oni bai am gylchoedd o hynafiaethwyr, digon amwys oedd yr ymwybyddiaeth o hunaniaeth nad oedd yn un Seisnig, ond dechreuodd dreiddio drwy haenau mawr o'r gymdeithas, yn enwedig ar ôl cyhoeddi *Netherton's Cornish Almanac* o Truro yn y 1850au lle rhoddwyd lle blaenllaw i'r Gernyweg. Yn sgil twf mewn democratiaeth wleidyddol yn niwedd y 19G, byddai siaradwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus bob amser yn cyfarch y gynulleidfa fel Cernywiaid a sonia Bernard Deacon (2003) am "an almost subterranean sense of Cornwall being 'not of England'."

Trodd datblygiad diwydiannol cymdeithas Cernyw nid yn unig at Anghydfurfiaeth, ond hefyd at Ryddfrydiaeth, ac erbyn y 1880au y blaid Ryddfrydol oedd y blaid wleidyddol Brydeinig a dderbynai 'ymreolaeth' i Iwerddon, polisi a ysbrydolodd Rhyddfrydwyr Cymreig Cymru Fydd ond na chafodd unrhyw adlais o werth yng Nghernyw. Yn wir, ni chydabyddid bodolaeth Cernyw fel gwlad mewn unrhyw ffordd. Yn swyddogol roedd Cernyw yn *sir* ac nid yn *wlad*, ac yn 1901 gohiriodd y Gyngres Pan-Geltaidd a gynhaliwyd yn Nulyn y penderfyniad i dderbyn Cernyw yn aelod oherwydd amheuan difrifol a oedd hi bellach yn dal yn Geltaidd. Anerchiad y diwygiwr Henry Jenner yn Gernyweg a ddarbwyllodd y Gyngres Pan-Geltaidd nesaf yng Nghaernarfon (1904) fod Cernyw yn Geltaidd. Esgorwyd ar fudiad iaith drwy sefydlu'r Cowethas Kelto-Kernuak ('y Gymdeithas Geltaidd-Gernywiaidd') o dan Jenner, a chyn 1914 cadwodd y

mudiad yn fwriadol yn glir o wleidyddiaeth a dyma hefyd oedd barn Robert Morton Nance, prif adfywiwr y cyfnod rhwng y rhyfeloedd. Roedd y mudiad adfywio yn hynafiaethol ac yn hiraethus am orffennol rhamantaidd cyn-ddiwydiannol fel y gellir gweld o sefydlu Gorseth Kernow barddol yn 1928 ar batrwm ymgynulladau derwyddol Cymru a Llydaw. Dyma sylwadau Jack Clemo ar seremoni farddol 1933: "I know of no ceremony or function which makes one forget so completely the present world muddle." Yn sgil yr ymdeimlad rhanbarthol cynyddol a ddilynodd ddiwedd rhyfel 1914-18, cafodd cenedlaeth iau o Gernywiaid alltud ac anfodlon yn Llundain oedd yn ymwneud â'r mudiad adfywio eu hysgogi i sefydlu'r grŵp cenedlaetholgar cyntaf yn 1932, sef y Tyr ha Tavas ('Tir ac Iaith'). Er ei fod yn bennaf yn ddiwylliannol ei ogwydd, dechreuodd Tyr ha Tavas fel carfan bwysu yn ymwneud â materion gwleidyddol megis 'Cernyw i'r Cernywiaid' ac yn 1940 gwrthododd John Legonna, aelod ohono, ymuno â'r lluoedd arfog os na châi Cernyw hunanlywodraeth. Collodd Tyr ha Tavas ei momentwm a daeth Mudiad Cernyw Ifanc (*Young Cornwall Movement*) yn ei le am gyfnod, sef mudiad a sefydlwyd gan fyfyrwyr Cernyw yn Rhydychen yn 1943 ond na ddatblygwyd lawer ganddynt. Yn 1951, yn sgil ymweliad y Gyngres Geltaidd â Truro y flwyddyn flaenorol, aeth Helena Charles, oedd wedi graddio o Rydychen, ati i sefydlu Mebyon Kernow ('Meibion Cernyw'). Roedd Mebyon Kernow (MK) yn rhannol garfan bwysu ac yn rhannol blaid wleidyddol, a thyfodd yn araf nes erbyn diwedd y 1960au sefydlwyd canghennau ledled Cernyw a dechrau ethol cynghorwyr lleol. Cynyddodd y dryswch ai carfan bwysu ynteu plaid wleidyddol oedd y mudiad gan arwain at rwyg yn 1969 wrth i aelodau Plaid Genedlaethol Cernyw (Cornish National Party/CNP) ddymuno i'r MK gyhoeddi'i hun yn erbyn y blaid Ryddfrydol a'r pleidiau Prydeinig eraill. Edwinodd y CNP cyntaf hwn o fewn rhai blynyddoedd gyda'i aelodau'n dychwelyd i gorlan y MK. Ymladdodd y MK ei etholiad seneddol cyntaf yn 1970 yn etholaeth Falmouth-Camborne. Yn 1975 cafwyd ail rwyg ymysg Plaid Genedlaethol Cernywa a bu hwn yn ymladd etholiadau hyd 1985, ond nid oedd ei radicaliaeth, gan gynnwys adran ieuenctid *greenshirt*, yn porthi poblogaeth wleidyddol Cernyw. Roedd cenedlaetholdeb mwy radical Cernyw wedi'i fonopoleiddio gan adfywiad yn 1974 o Senedd Stanari ganoloesol Dugiaeth Cernyw yn dilyn anghydfod tâl yn y gweithiau clai llestri. Yn 1977 gofynnodd Aelod Seneddol Plaid Cymru, Dafydd Wigley, yn y Senedd i'r Twrnai Cyffredinol dros Gymru a Lloegr a oedd deddfau Siarter Pardwn 1508 wedi'u dirymu a derbyniodd yr ateb nad oedd hawl aelod y Stanari i wahardd deddfwriaeth San Steffan erioed wedi'i ddiddymu'n ffurfiol. Ymunodd Senedd Stanari â rhengoedd cenedlaetholdeb Cernyw fel awdurdod cyfansoddiadol amgen ar gyfer Cernyw a datblygodd yn garfan bwysu radicalaidd a ragorai mewn enghreifftiau o weithredu uniongyrchol a gâi lawer o sylw, yn bennaf yn ystod ei herio ar dreth y pen (*poll tax*) amhoblogaidd 1991. Datblygodd yr MK yn blaid gryfach ac er gwaethaf peidio ag ymgeisio yn yr etholiadau seneddol bob tro, eto yn 1993 fe gyflwynodd

ymgeisydd ym mhob ardal etholaeth am y tro cyntaf. Yn etholiad 2001, llwyddodd dau ymgeisydd MK yr etholaeth i gael ychydig dros 2% o'r pleidleisiau. Derbyniwyd baner Sant Piran – a ystyrir i fod yn faner Mebyon Kernow yn y 1970au – ac fe'i codwyd hyd yn oed gan Gyngor Sir Cernyw.

Nid oedd lluniau yn dangos ffurfio Byddin Rydd Cernyw yn 1974 yn ddim ond ffars gan fyfyrwyr coleg polytechnig Plymouth yn y diwedd, ond yn 1980 ffrwydrodd bom yn llys Saint Austell a mynnodd grŵp tywyll o'r enw An Gof 1980 (wedi'i enwi ar ôl arweinydd gwrthryfel Cernyw 1497) mai nhw oedd yn gyfrifol. Gyrrodd An Gof 1980 hefyd alwadau ffôn bygythiol at aelodau MK gan eu cyhuddo o fod yn "Trotskyists" cyn diflannu ar ôl 1981 oni bai am ymddangosiadau bob yn hyn a hyn gan bobl – o bosibl – heb gysylltiad â'i gilydd oedd am godi cythrwfl. Heblaw am fod yn gymdeithas ôl-ddiwydiannol ddirwasgedig mewn sawl man, mae gan Gernyw atyniadau fel cyrchfan gwyliau sydd wedi denu ymwelwyr yn eu miloedd, ac mae'n dioddef o un o'r canrannau uchaf o ail gartrefi (sydd felly wedi codi prisiau tai) ym Mhrydain. Ymddengys i An Gof gael ei ailffurfio yn 2007, a dechreuodd ar ymgyrch o ddfwyno baneri Lloegr (a ffafriwyd gan gefnogwyr pêl-droed Lloegr) yn ogystal â gyrru llythrau bygythiol at y cogyddion Seisnig enwog Rick Stein a Jamie Oliver a gâi'r bai am ddenu twristiaid (neu *emmits* 'morgrug' fel y'u gelwir yn ddilornus mewn Cernyweg-Saesneg) i Gernyw.

O ystyried statws swyddogol Cernyw fel sir yn Lloegr a diffyg bodolaeth yr iaith 'frodorol' nid yw'n syndod nad yw'r Gernyweg wedi'i chydabod yn swyddogol. Serch hynny, yn sgil derbyn cyffredinol ar hawliau i ieithoedd cenedlaethol lleiafrifol, dechreuodd y Gernyweg yn niwedd y 1990au i gael ei derbyn gan lywodraeth Prydain ar lefel debyg i'r Gymraeg, Gaeleg Albanaidd a'r Wyddeleg. Yn 1999 derbyniodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y Cernywiaid fel grŵp ethnig ar wahân ac yn 2003 rhoddodd y llywodraeth ei bendith i'r Gernyweg gael ei thrin fel iaith leiafrifol swyddogol. Roedd sefydlu Cornwall Against the English Rose (CATER) yn 1987 wedi arwain at ddifrodi symbol y rhosyn ar arwyddion y corff 'English' Heritage, a dwysaodd yr ymgyrch yn niwedd y 1990au. Yn 2000 'atafaelodd' Senedd Stanari Cernyw arwyddion English Heritage a'u cadw wedi'u cuddio'n ddiogel fel "tystiolaeth o ymosodiad y diwylliant Saesneg yng Nghernyw".

Yn 1933 gofynnodd y Tyr ha Tavas yn gyntaf i'r Gernyweg gael ei gwneud yn bwnc dewisol yn ysgolion y sir ac fe gafwyd yr ymdrech gyntaf i ddysgu plant gan E.G.R. Hooper mewn ysgol breifat yn Camborne. Roedd gwersi Cernyweg o'r fath yn destun diddordeb ar y teledu yn gynnar yn y 1960au ond ni chaniatawyd iddynt fod ond y tu allan i oriau arferol ysgol. Erbyn 2000 roedd tua deuddeg o ysgolion cynradd a thair ysgol uwchradd yn addysgu'r Gernyweg. Un o ymgyrchoedd cyntaf MK oedd ymgyrchu dros gael prifysgol Cernyw sydd – er gwaethaf sefydlu'r Institute of Cornish Studies yn 1970 o dan Brifysgol Caerwysg yn Redruth – ond yn nawr yn cael ei gwireddu ym Mhrifysgolion Cyfunol Cernyw ar gampws Tremough ger Falmouth a agorodd

yn 2004. Sefydldodd R. Morton Nance (1873-1959) ffurf adfywiedig y Gernyweg yn y 1920au (Cernyweg Unedig) ac atgyfnerthwyd hyn drwy sefydlu Bwrdd yr Iaith Gernyweg (CLB) yn 1967 gan ymwneud yn bennaf â threfnu arholiadau a drefnwyd cyn hynny ar ran Gorseth y beirdd Cernyweg. Yn anffodus gan i'r CLB fabwysiadu orgraff newydd yn 1987 (Kemryn), cafwyd anghydweld chwerw a rhannwyd adfyw-wyr y Gernyweg ar hyd ysgolion orgraffyddol wedi'u cefnogi gan y sefydliadau canlynol: Teere ha Tavas (sefydlwyd 1988) ar ran Cernyweg Diweddar/Modern ac Agan Tavas (sefydlwyd 1990) i amddiffyn Cernyweg Unedig (gydag addasiad o Gernyweg Unedig a luniwyd gan Nicholas Williams yn 1995). Roedd tua 38 o ddosbarthiadau iaith i oedolion yn 2000, wedi'u rhannu rhwng 18 (Kemryn), 11 (Diweddar/Modern), 9 (Unedig).

Roedd y darllediad radio cyntaf yn 1935 ond dim ond unwaith y digwyddodd. Mae radio leol ar hyn o bryd yn chwarae rhaglen Gernyweg/ddwyieithog am chwarter awr bob wythnos ond nid oes unrhyw ddarllediadau Cernyweg ar y teledu (er bod rhai rhaglenni nad ydynt yn rhai proffesiynol wedi'u ffilmio fel menter breifat).

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- COOPER, J. P. D. 2003. *Propaganda and the Tudor State: Political Culture in the West Country*. (Oxford: Clarendon).
- DEACON, Bernard & COLE, Dick & TREGIDGA, Garry. 2003. *Mebyon Kernow and Cornish Nationalism*. (Cardiff: Welsh Academic Press)
- ELLIS, Peter Berresford. 1974. *The Cornish Language and its Literature*. (London: Routledge & Kegan Paul).
- JENKIN, Hamilton A. K. 1945. *Cornwall and its People*. (London: Dent).
- *PAYTON, Philip (gol.). 1993. *Cornwall since the War: the contemporary History of a European Region*. (Redruth: Institute of Cornish Studies). (Penodau 9–13).
- PAYTON, Philip. 2000. 'Cornish'. Yn Glanville Price (gol.) *Languages in Britain and Ireland*. (Oxford: Blackwell), 109–19.
- *PAYTON, Philip. 2004. *Cornwall: a History*. (Fowey: Cornwall Editions). (Penodau 5–12).
- PAYTON, Phillip. 2005. *The Cornish Overseas*. (Fowey: Cornwall Editions).
- STOYLE, Mark (gol.). 2002. *West Britons: Cornish Identities and the Early Modern British State*. (Exeter: Exeter University Press).

Adnoddau ar y We

'Cornish self-government movement'.

Yn < http://en.wikipedia.org/wiki/Cornish_self-government >

'Institute of Cornish Studies'. Yn < www.institutes.ex.ac.uk/ics >

'List of topics related to Cornwall'.

Yn < http://en.wikipedia.org/wiki/List_of_topics_related_to_Cornwall >

MACKINNON, Kenneth 2000 'Cornish at its millennium: an independent study of the language undertaken in 2000' sub 'Cornish 2000'. Yn < www.sgrud.org.uk >

5.6 GORLLEWIN LLYDAW (y 18G hyd at heddiw)

Ers adeg y Chwyldro Ffrengig yn 1789, peidiodd Llydaw â bod ar wahân yn wleidyddol ffurfiol o weddill Ffrainc mewn unrhyw ffordd, ond fe'i rhannwyd fel gweddill gwladwriaeth Ffrainc yn *départements* (sy'n fras yn debyg i siroedd). Roedd y cwlwm rhwng y Llydaweg a'r byd cyn y chwyldro yn amlwg ymhell i'r 20G gan mai'r cyfatebol yn Llydaw i *La Fête Nationale* (14eg Gorffennaf yn ddiwrnod cenedlaethol) oedd *Gouel ar Republik* ('Diwrnod y Weriniaeth'); câi pellter ei fesur mewn *leo* (milltir Ffrengig) ac nid mewn *kilometre*; roedd gwerth arian yn dal yn *lur* (Ff. *livre* 'punt') ac nid *franc*; roedd plwyf yn dal yn *parroz* ac nid yn *commune*, a'r enw ar yr anheddiad trefol lleiaf – hyd yn oed os oedd yn llai na chanol plwyf – oedd *kêr* 'tref' os oedd wedi bod yn ganolfan weinyddol yn ystod y cyfnod brenhinol cyn y chwyldro. Roedd Catholigiaeth gorllewin Llydaw wedi'i chysgodi rhag cyhoeddiadau Ffrangeg anghrefyddol ac anghysegregidig y 18G oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r iaith honno oherwydd fod mwyafrif eang poblogaeth gorllewin Llydaw ar y pryd yn uniaith Llydaweg. Nid oes ryfedd y gallai chwyldroadwyr Ffrengig a chynyddgarwyr ddatgan fod "ofergoel yn siarad Llydaweg" (*la superstition parle ... bas-breton*).

Am gyfnod byr iawn defnyddid y Llydaweg ar hysbysiadau cyhoeddus, ond yn fuan, o dan yr holl gyfansoddiadau Ffrengig wedi hynny yn y 19G (y weriniaeth, yr Ymerodraeth, y deyrnas ac ati) gwarafunwyd unrhyw gydnabyddiaeth swyddogol i'r Llydaweg. Ni chuddiodd llywodraethwyr y weinyddiaeth – cynrychiolwyr y llywodraeth ganolog – eu parodrwydd i "ddinistrio'r iaith Lydaweg" a châi athrawon eu hatgoffa y dylent "ladd y Llydaweg". A chan fod y boblogaeth fwy na heb wedi cadw'n driw i'r Eglwys Gatholig, yr unig gyfarwyddyd a dderbynnid mewn Llydaweg ysgrifenedig oedd y paratodau mwyaf sylfaenol i lwyddo yn y catecism yn bedair blwydd ar ddeg. Nid oedd y ddihareb bropagandaidd "mae'r Llydaweg a'r Ffydd [Gatholig] yn ddwy chwaer yn Llydaw" (*Ar brezoneg hag ar feiz zo breur ha c'hoar e Breiz*) yn argoel dda i Eglwys oedd ar y cyfan yn fodlon ar reoli praidd ufudd a gwasaid. Ni wnaeth rhai cenadaethau Protestannaidd o Gymru o'r 1820au ymlaen "i achub eu cydwladwyr colledig" ond llwyddo i droi cymunedau ymylol tlawd o bysgotwyr neu fwyngloddwyr. Yn Ffrainc yn ogystal â threfi Ffrengig Llydaw, daeth yr iaith Lydaweg i fod yn gyfystyr â morwyn ceidwadaeth.

Er gwaethaf yr holl anfanteision, roedd arwyddion fod syniadau a ffasiynau modern yn dechrau cael eu cymhwyso i'r Llydaweg. Yn ei *Barzaz Breiz* yn 1839, cyhoeddodd uchelwr ifanc o Lydaw, Hersart de la Villemarqué, fersiynau wedi'u rhamanteiddio a'u haddurno o ganeuon gwerin yr oedd wedi'u casglu, ac am y tro cyntaf erioed rhoddwyd i'r Llydaweg ychydig o'r rhagoriaeth lenyddol a roddwyd i gerddi Ossian Macpherson yn yr Alban. Sefydlwyd cymdeithasu llenyddol ac yn sgil cyfarfodydd petrus ag ysgolheigion a hynafiaethwyr o Gymru

yn 1870, trefnwyd y ddeiseb gyntaf yn gofyn am gael addysgu Llydaweg mewn system addysg a oedd fel arall yn gyfan gwbl Ffrangeg. Yn sgil berw siofynyddiaeth genedlaethol Ffrengig a ddilynodd trechu Ffrainc yn 1871 gan Brwsia, roedd goddef ieithoedd eraill yn Ffrainc yn llai tebygol. Yn sgil deddf addysg 1880 roedd mynd i'r ysgol yn orfodol ac am ddim ym mhob ardal yn Llydaw ac yn fuan roedd ffrengigo yn digwydd yn gyflym wrth i bob Llydawwr orfod dysgu Ffrangeg ac os oeddynt yn siarad Llydaweg caent eu cosbi drwy wisgo symbol (sef clocsen bren oedd i'w rhoi dros y gwddf yn aml). Dyma'r cyfnod hefyd y treiddiodd rheilffyrdd i Lydaw ac y ceid gorfodaeth filwrol gyffredinol.

Sbardunodd cyflymder ffrengigo y cyfnod hwn i unigolion ddod i'r fei oedd yn barod i amddiffyn y Llydaweg. Yn 1898, sefydlwyd yr Union Régionaliste Bretonne (URB), y blaid wleidyddol neu'r garfan bwyso Lydewig gyntaf. Rhwng 1902 a 05, ynghyd â mesurau llym oedd yn cynnwys adfeddiannu tai crefyddol oddi wrth yr Eglwys Gatholig, penderfynodd llywodraeth Ffrainc wahardd yr Eglwys Gatholig rhag defnyddio Llydaweg yn eu hysgolion, yn y catecism a hyd yn oed wrth bregethu (roedd gwahanu'r Eglwys o'r Wladwriaeth yn 1905 yn golygu diwedd ar y cyfnod anodd hwn i'r Llydaweg yn yr Eglwys). Yn 1911 rhannodd yr URB yn bleidiau cenedlaetholgar a ffederalaidd (er y cwtogwyd ar eu gweithgareddau yn sgil dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn 1914).

Yn y cyfnod ar ôl y rhyfel, gwelwyd sefydlu olyniaeth o bleidiau rhanbarthol a chenedlaetholgar Llydewig a ymgyfunai'r rhain drwy'r cyfnodolyn dylanwadol *Breiz-Atao* ('Llydaw am byth') a sefydlwyd yn 1919. Erbyn 1931 arweiniodd rhwyg rhwng aden ffederalaidd ac aden genedlaetholgar ddigyfaddawd y Parti Autonomiste Breton at sefydlu Parti Nationale Breton (PNB). Gwelwyd mai PNB oedd yr olynnydd cryfaf, a symudodd yn gyflym i'r cyfeiriad ffasgaidd ac at wleidyddiaeth gynllwyniol, a chefnogwyd rhai elfennau ynddi gan fyddin yr Almaen. Yn 1932, bu i gangen eithafol ohoni ysgogi'r bomio cyntaf ar gofadeiladau dros yr achos Llydewig, a phwysai mudiadau cysylltiedig am addysg Llydaweg a chyhoeddiadau Llydaweg. Yn 1940 dychwelodd arweinwyr y PNB "yn lorïau'r Almaenwyr" gan geisio sefydlu Llydaw i fod yn wlad ddibynnol ar y Natsiaid, ond oherwydd y grym strategol yr oedd yn dal gan weddill llywodraeth Ffrainc yn Vichy (de Ffrainc, y llynges Ffrengig a threfedigaethau yn fyd-eang) aeth yr Almaenwyr ati i gael arweinwyr newydd i'r PNB oedd â phersonoliaethau mwy cymwynasgar iddynt hwy. Serch hynny cadwodd yr Almaenwyr garfan eithafol y PNB wrth gefn ac ar ôl i'r rhyfel ddechrau yn erbyn yr Almaen, bu i'r garfan hon sefydlu brigâd Lydewig o'r enw Bezen Perrot (a enwyd ar ôl yr offeiriad cenedlaetholgar Perrot a laddwyd gan y *résistance* yn 1943). Oherwydd rhan cenedlaetholwyr Llydewig yn dial ar y *résistance* a'r boblogaeth gyffredinol yn ystod meddiant yr Almaenwyr, nid oedd unrhyw fudiad gwleidyddol Llydewig ar ôl 1945 yn oddefadwy am o leiaf ddeng mlynedd a bu'n aflwyddiannus am o leiaf cenedlaeth. Ni chafwyd

arwydd o lwyddiant rhanbarthol/cenedlaetholgar cyntaf Llydaw hyd ddiwedd y 1960au ac ers hynny yr Union Démocratique Bretonne (UDB) sydd wedi bod y blaid wleidyddol Lydewig fwyaf lwyddiannus, ond ychydig o wir lwyddiant a gafodd mewn gwirionedd. Y cyfnod 1945-65 oedd cyfnod y llithriad ieithyddol lle daeth trosglwyddo'r Llydaweg o genhedlaeth i genhedlaeth i ben a daeth y Ffrangeg i gymryd lle'r Llydaweg fel iaith cefn gwlad Llydaw, y cadarnle olaf. Nid oedd y gyfres o fomio a wnaed o 1966 gan y FLB-ARB cyfrinachol yn erbyn gweinyddiaeth gyhoeddus a chofadeiladau wedi taro tant ymysg poblogaeth Llydaw (y digwyddiad mwyaf trawiadol oedd yn 1972 pan ddymchwelwyd trosglwyddydd teledu ar gyfer gorllewin Llydaw, gan amddifadu pobl o'u rhaglenni teledu am fisoedd bwygilydd). Lladdwyd menyw ddiniwed yn Quévert yn 2000 – a briodolir i'r mudiad – gan achosi ton o wrthdro ac ymddengys i hyn arwain at ddiwedd yr ymgyrch.

Yn niwedd y 1960au gwelwyd ymlacio ar ganoli Ffrengig, a ffynnai agwedd ryddfrydol ymysg poblogaeth Ffrengig oedd wedi blino ar greulondeb imperialaidd rhyfel Annibyniaeth Algeria. Roedd diwylliannau gwahanol yn ddeniadol a darganfu cenhedlaeth newydd ddiwylliant gwreiddiol gwaharddedig Llydaw. Roedd adfywiad diwylliannol bellach yn ei anterth, ac yn gefn i artistiaid gwerin a gwerin-roc megis Alan Stivell, Glenmor, Diaouled ar Menez neu gantorion traddodiadol megis Ar C'hoarezed Goadeg (*Les Soeurs Goadec*), Ar Vreudeur Morvan (*Les Frères Morvan*) ac Yann-Fanch Kemener, i enwi ond rhai. Yn ystod y 1970au ffynnodd y fest-noz (dawns draddodiadol o Lydaw) gan goloneiddio lleoliadau mwy o faint a rhai newydd, a datblygu i fod yn ffenomen dorfol mor nodweddiadol o Lydaw ag y mae sesiynau cerddoriaeth draddodiadol mewn tafarndai yn Iwerddon. Caniatwyd y Llydaweg fel pwnc dewisol y tu allan i oriau ysgol am y tro cyntaf o dan yr Almaenwyr ond fe'i hailgodwyd yn 1951, gan ddilyn ymlaen yn 1971 i'w dderbyn fel pwnc dewisol mewn ysgolion uwchradd ac yn y brifysgol. Er hynny, roedd y datblygu mor araf nes yn 1977 sefydlwyd yr ysgolion cyntaf drwy gyfrwng y Llydaweg gan y mudiad Diwan, gyda Diwan yn datblygu er gwaetha'r holl anawsterau i sefydlu ysgol uwchradd drwy gyfrwng y Llydaweg (1988). Yn sgil ymgyrch difrodi arwyddion uniaith Ffrangeg yn 1984 gan y mudiad gweithredu uniongyrchol Stourm ar Brezhoneg, bu i gynghorau lleol o ganol y 1980au ymlaen ychwanegu arwyddion dwyieithog sydd ers hynny wedi dod yn gyffredin yn Llydaw.

Nid oes amheuaeth fod y Llydaweg heddiw wedi'i pharchu yn llawer mwy ac mae'n fwy ffasiynol nag y bu erioed, ond er hynny, mae cynnydd yr adfywiad yn ddibwys bron â bod – o gymharu â'r difrod a wnaed i'r Llydaweg yn y ganrif cyn 1970. Nid oes fawr o amheuaeth fod mwy o deithio ymysg unigolion ers y 1960au, i lefydd megis Iwerddon, ond yn enwedig i Gymru, a'r mentrau gefeillio wedyn rhwng trefi a phentrefi yn y gwledydd hyn, wedi ysbrydoli llawer o Lydawyr (a oedd cyn hynny yn ddiwylliannol anymwybodol) i ymfalchïo yn eu hiaith ac i

sylweddoli'r angen i'w meithrin (yn eironig gan fod eu hymweliadau yn aml wedi'u hysbrydoli gan awydd i ddysgu'r iaith imperialaidd arall honno ... Saesneg!). Serch hynny, mae'r Ffrangeg bellach wedi'i sefydlu'n gadarn yng ngorllewin Llydaw ac mae mwyafrif y boblogaeth, yn debyg iawn i bobman arall, yn brysur yn ymhél â'u bywydau eu hunain heb y Llydaweg.

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- COLLINS, James B. 1994. *Classes, Estates and Order in Early-Modern Brittany*. (Cambridge: Cambridge University Press).
- DÉGUIGNET, Jean-Marie. 2004. *Memoirs of a Breton Peasant*. (New York: Seven Stories).
- DÉNIEL, Alain. 1976. *Le Mouvement Breton: 1919–1945*. (Paris: Maspéro).
- HUMPHREYS, Humphrey Ll. 1990. 'The geolinguistics of Breton'. Yn Colin H. Williams (gol.). *Linguistic Minorities: Society and Territory*. (Clevedon: Multilingual Matters), 96–120.
- MCDONALD, Maryon. 1989. *'We are not French!'*. (London: Routledge).
- *MEWES, Wendy. 2006. *Discovering the History of Brittany*. (Axbridge: Red Dog).
- REECE, Jack E. 1977. *The Bretons against France: Ethnic Minority Nationalism in Twentieth-century Brittany*. (Chapel Hill: University of North Carolina).

Adnoddau ar y We

- 'Brittany'. Yn < <http://en.wikipedia.org/wiki/Brittany> >
- 'Breton identity'. Yn < www.breizh.net/identity >
- BROUDIC, Fanch. 'www.langue-bretonne.com'.
Yn < <http://perso.orange.fr/fanch.broudic/index.html> >